## PWYLLGOR CYNLLUNIO

Cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Dref, Rhuthun ar 18 Ebrill 2007 at 9.30 am

### PRESENNOL

Cynghorwyr S Thomas (Cadeirydd) J R Bartley, R E Barton, B Blakeley, J Butterfield, J Chamberlain-Jones, M Ll Davies, S A Davies, G C Evans, S Frobisher, M A German, D Hannam, K.N. Hawkins, N Hugh-Jones, E R Jones, H Jones, M M Jones, G M Kensler, P W Owen, N P Roberts, J Smith, D A J Thomas, , J Thompson-Hill, C H Williams ac R Ll Williams.

### HEFYD YN BRESENNOL

Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd, Uwch Gyfreithiwr, Arweinydd Tîm (Mân Geisiadau) Arweinydd Tîm (Ceisiadau Mawr), Arweinydd Tîm (Cefnogi) (G Butler), Swyddog Gwasanaethau Cwsmer (Judith Williams) a Bryn Jones (Cyfieithydd), Medwyn Williams (Priffyrdd). Roed M Hall (Hamdden Cymunedol) yn bresennol am ran o'r cyfarfod

### DERBYNIWYD YMDDIHEURIADAU ODDI WRTH

Cynghorwyr J M Davies, H H Evans, S. Frobisher, I M German, T K Hodgson ac R. Hughes

### 1167 MATERION BRYS

**APÊL CYNLLUNIO TESCO RHUTHUN**

Hysbysodd Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd y pwyllgor am ganlyniad yr apêl ddiweddar gan Tesco yn erbyn gwrthod caniatâd cynllunio ar gyfer estyniad i'r Archfarchnad Lôn Parcwr yn Rhuthun. Caniatawyd yr apêl gan yr Arolygaeth Gynllunio. Bydd manylion y penderfyniad yn cael ei ddosbarthu.

**M. GERMAN**

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd M. German yn ôl o'i anhwyldeb a diolchodd iddo am ei gymorth parod effeithiol mewn mater lleol yn ward y Cadeirydd.

### 1168 CEISIADAU AM GANIATÂD I DDATBLYGU

Cyflwynwyd adroddiad Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (a ddosbarthwyd eisoes) yn rhestru'r cynlluniau a gyflwynwyd ac a oedd angen eu penderfynu gan y Pwyllgor.

***PENDERFYNWYD**:-*

*(a)* *cadarnhau argymhellion y Swyddogion fel y cynhwyswyd yn yr adroddiad a gyflwynir nawr, a rhoi, neu wrthod, caniatâd cynllunio, fel bo'r achos, fel y bo'n briodol dan Orchymyn Cynllunio Tref a Gwlad* (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) *1995, Deddf Cynllunio ac Iawndal, 1991, Rheoliadau Hysbysebion Cynllunio Gwlad a Thref, 1994 a/neu Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth), 1990, i'r datblygiadau a gynigiwyd gan y cynlluniau canlynol, yn ddarostyngedig i'r amodau a nodwyd yn yr atodlen a gyflwynwyd nawr:-*

(i) Caniatâd

| Cais Cynllunio | Disgrifiad a Lleoliad |
|---|---|
| 01/2006/1432/PF | Newid defnydd ac estyniad deulawr gyda tho ar ongl i'r annedd presennol i ffurfio tŷ bwyta/bistro newydd gyda llety hunangynhaliol a dwy ystafell wely ar y llawr cyntaf at ddibenion Gwely a Brecwast. Adeiladu maes parcio. Amnewid to gwastad yr ystafell fwyta to ar |

ongl. Adeiladu estyniad i'r ystafell fwyta a'r balconi presennol y tu ôl i'r annedd.
**Fferm Alafowlia, Ffordd Rhyl, Dinbych**
**CANIATAWYD**
**Amodau Ychwanegol**
11. Ni chaniateir gwerthu bwydydd na diodydd o'r adeiladau a ganiatawyd yma.
*Rheswm: Er bydd mwynder preswyl.*
12. Er gwaethaf y manylion a ddangosir yn y cynllun a gyflwynwyd, ni ddylid dechrau ar y datblygiad nes cael cymeradwyaeth ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol ynglŷn â manylion maes parcio, tirweddu caled a meddal a phlannu a darluniad o lwybrau pedestraidd a mynediad i'r adeilad (yn cynnwys darpariaeth mynediad ar gyfer yr anabl). Ni ddylid dechrau defnyddio'r adeilad nes bod y manylion cymeradwy wedi eu cwblhau.
*Rheswm: Er budd mwynderau gweledol ac i ganiatáu mynediad diogel a chyfleus i bobl a cherbydau i'r safle a'r adeilad.*
13. Rhaid ailddefnyddio'r cerrig o'r adeiladau a ddymchwelir i adeiladu cloddiau terfyn i'r gogledd ac i'r de ar y safle, yn unol â'r cynllun a gyflwynwyd i, a'u cymeradwyo yn ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol cyn dechrau adeiladu'r estyniadau a ganiatawyd.
*Rheswm: Er budd mwynder preswyl a gweledol.*
**Nodyn i'r Ymgeisydd**
Fe'ch cynghorir i gysylltu gyda'r Swyddog Achos i drafod syniadau braslun y manylion yn unol ag Amod 4 o'r caniatâd hwn.

02/2006/1302/PR

Yn dilyn ystyriaeth o'r cynllun safle diwygiedig ddosbarthwyd a llythyr oddi wrth Bennaeth Trafnidiaeth ac Isadeiledd.
Manylion safle, dylunio ac ymddangosiad allanol 3 annedd, dull mynedfa a thirlunio wedi ei gyflwyno yn unol ag Amod 1 o'r caniatâd cynllunio amlinellol Rhif Cyf. 02/2001/0744/PO,
**Clwb Tenis, Bryn Goodman, Rhuthun**
**CANIATAWYD,** yn ddarostyngedig i
**Amodau Ychwanegol/Diwygiedig**
1. "….a rhaid gweithredu'r datblygiad…."
2. Er gwaethaf y manylion a gyflwynwyd, ni ddylid meddiannu unrhyw un o'r anheddau nes derbyn cymeradwyaeth ysgrifenedig oddi wrth yr Awdurdod Cynllunio Lleol ynglŷn â'r tirlunio a phlannu ar y safle, gosod yr holl waliau a ffensys sgrinio a therfyn; bydd yr holl blannu, hadu, gweirio, ffensio, adeiladu unrhyw furiau a thriniaeth arall a gynhwysir yn y manylion tirlunio a gymeradwywyd yn digwydd y tymor plannu a hadu cyntaf ar ôl meddiannu annedd olaf y datblygiad. Dylid ail-blannu coed neu blanhigion sydd, o fewn cyfnod o bum mlynedd o'r datblygiad, yn marw neu'n cael eu symud neu sy'n dioddef anaf neu afiechyd difrifol, yn y tymor plannu nesaf gydag eraill o rywogaeth a maint tebyg.
9. Rhaid i'r mynediad arfaethedig o Wern Ucha fod yn rhydd o unrhyw gatiau neu rwystrau bob amser.
*Rheswm: Er budd symudiad rhydd a diogel i draffig ar y briffordd gyfagos, ac i sicrhau ffurfio mynediad diogel a boddhaol.*
**Nodiadau i'r Ymgeisydd**
Tynnir eich sylw at Nodiadau Priffyrdd Atodol 1,2,4,5 a 10 sydd ynghlwm.
Tynnir eich sylw at ffurflen Rhan N sydd ynghlwm (Deddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991).

02/2006/1305/PF

Creu ardaloedd eistedd/ysmygu ar adrannau o'r to gwastad.
**Corporation Arms, Stryd y Castell, Ruthun**
**CANIATAWYD**

16/2007/0233/PF

Adeiladu ystafell-haul a theras ar arwynebedd to gwastad yng nghefn yr annedd.
**18 Tan Y Bryn, Llanbedr Dyffryn Clwyd, Ruthun**
**CANIATAWYD**

17/2006/0800/PO

Ar ôl ystyried adroddiad ar ymweliad safle a gynhaliwyd ar 13 Ebrill 2007 a chynllun ychwanegol yn dangos y terfyn datblygu.
Datblygu 0.83 hectar o dir ar gyfer dibenion preswyl ac adeiladu mynediad i bobl/cerbydau (cais amlinellol)
**Tir Cyfagos i Fferm Pen Y Stryd, Llandegla**
**CANIATAWYD**
**Yn ddarostyngedig i'r amodau ychwanegol canlynol**
7. Ni chaniateir dechrau datblygu hyd nes gwneir, ar gost y datblygwyr, arolwg manwl o'r gwaith trin carthffosiaeth a'r system ddraeniad perthnasol i ganfod oes cynhwysedd ar gael i gynnal y datblygiad arfaethedig; a phe bai angen gwaith gwelliant er mwyn caniatáu i'r datblygiad fynd yn ei flaen, manylion o'r gwaith angenrheidiol yn cynnwys cyfrifoldeb am weithredu ac amseriad y gwaith. Ni chaniateir dechrau'r datblygiad nes cael cymeradwyaeth ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol, mewn ymgynghoriad gyda Welsh Water/Dŵr Cymru, i'r arolwg ac unrhyw drefniadau cysylltiol angenrheidiol i wella'r gwaith neu'r system.
11. Defnyddiwyd y cynlluniau a gyflwynwyd gyda'r cais ar gyfer dibenion arddangos yn unig, ac nid ydynt yn ffurfio rhan o'r caniatâd hwn.
*Rheswm: I osgoi amheuaeth.*
12. Bydd y datblygiad yn mynd rhagddo'n gyfan gwbl yn unol â chynllun cyfnodau, i'w gytuno'n ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol cyn dechrau ar unrhyw waith datblygu.
*Rheswm: Er mwyn caniatáu i'r Awdurdod Cynllunio Lleol reoli maint y datblygiad.*
**Nodiadau i'r Ymgeisydd**
Wrth baratoi'r cynlluniau fe'ch cynghorir i ymgorffori gwrych newydd ar hyd blaen y safle, y tu ôl i'r ymlediadau gweledol.
Nid yw'r caniatâd yn arwydd bod yr Awdurdod yn derbyn cynlluniau'r safle, nifer o anheddau etc. Fe ddylech gysylltu â'r adran gynllunio i drafod cynlluniau ddrafft cyn cyflwyno'r cynllun manwl.
Ynglŷn ag Amod 7 y caniatâd hwn, fe'ch cynghorir i gysylltu â Dŵr Cymru/Welsh Water i drafod dull addas o symud ymlaen.

20/2007/0080/PF

Datganodd y Cynghorydd J. Thompson-Hill ddiddordeb yn y cais canlynol a gadawodd y siambr yn ystod y drafodaeth ar y mater.
Ar ôl ystyried un llythyr ychwanegol oddi wrth Gyngor Cymuned Llanfair DC.
Addasu beudy i ffurfio 2 annedd deulawr, gosod gwaith trin carthffosiaeth breifat a newidiadau i'r fynedfa cerbydau presennol. Adeiladu mynedfa cerbydau newydd i Tŷ Fferm y Faenol a dymchwel yr ysgubor nas defnyddir.
**Faenol, Pentre Celyn, Rhuthun**
**CANIATAWYD** gydag amodau
Mynegodd yr aelodau bryder y dylai cynlluniau'r Cygnor hybu tai fforddiadwy/pris isel - y swyddogion cyfrifol i'w hysbysu o'r farn hon.

| | |
|---|---|
| 41/2007/0130/PF | Ar ôl ystyried 2 lythyr ychwanegol oddi wrth Gyngor Cymuned Bodfari a Chydbwyllgor Ymgynghorol AOHNE.<br>Dymchwel yr annedd un-llawr presennol ac adeiladu annedd deulawr a garej ar wahân a storfa<br>**Yew Tree, Bodfari, Dinbych**<br>**CANIATAWYD** |
| 42/2007/0106/PR | **Siaradwyr Cyhoeddus:**<br>**Yn erbyn y Cais – Peter Wilkinson**<br>**Dros y Cais – Richard Broughton**<br>Ar ôl ystyried 4 llythyr ychwanegol oddi wrth: Pennaeth Trafnidiaeth ac Isadeiledd; K J a D C Adams 19 Rhodfa Gofer, Dr F Campbell 23 Parc Gwelfor, A Daley, S Rhodfa Gofer Dyserth<br>Manylion safle, dylunio ac ymddangosiad allanol 3 annedd, tirweddu a mynedfa a gyflwynwyd yn unol ag Amod 1 Caniatâd Cynllunio Amlinellol Rhif Cyf. 42/2003/1494/PO (Diwygiad o Gais Rhif Cyf. 42/2004/1068/PR)<br>**Tir cyfagos i Rif 19 Rhodfa Gofer, Dyserth**<br>**CANIATAWYD** yn amodol i<br>**Amod Diwygiedig**<br>Amnewid Amod Rhif 3 â:<br>3. Er gwaethaf y cynlluniau a gyflwynwyd, ni chaniateir dechrau'r datblygiad nes derbyn cymeradwyaeth ysgrifenedig oddi wrth yr Awdurdod Lleol ynglŷn â'r oll o'r canlynol, yn cynnwys amseriad cwblhau'r datblygiadau priodol:<br>a) Manylion llawn am yr holl waliau sgrinio a therfyn, ffensys a thramwyfeydd, yn cynnwys unrhyw waliau cynnal a chynlluniau/adrannau cysylltiedig yn arddangos lefelau presennol y safle, a'r lefelau arfaethedig.<br>b) Manylion llawn plannu a thirweddu arfaethedig y safle, yn cynnwys rhywogaethau, maint a dwysedd y plannu.<br>c) Manylion llawn y defnydd arfaethedig a thriniaeth yr arwynebedd rhwng annedd Plot 3 a Rhif 23 Parc Gwelfor na chaniateir ei ddefnyddio fel rhan o gwrtil preswyl annedd Plot 3, a dylid ei osod fel maes tirweddu clustogfa.<br>Rhaid i'r manylion a gymeradwywyd yn Amod 3 rhannau a), b) ac c), gael eu gweithredu'n llym yn unol â'r amseriad penodedig.<br>**Nodyn Ychwanegol i'r Ymgeisydd**<br>Ynglŷn ag Amod 3 y gymeradwyaeth hon, fe'ch cynghorir i ddarparu braslun cynllunio ar gyfer trafodaeth gyda'r adran gynllunio cyn unrhyw gyflwyniad ffurfiol. |
| 43/2007/0054/PF | Ar ôl ystyried 1 llythyr ychwanegol oddi wrth: Cyngor Tref Prestatyn.<br>Manylion y dylunio ac ymddangosiad allanol yr annedd a thirweddu a gyflwynwyd yn unol ag Amod Rhif 1 caniatâd Cynllunio amlinellol, rhif cod 43/2006/0462/PO<br>**Tir (rhan o ardd) yn 110 Ffordd Talargoch, Prestatyn**<br>**CANIATAWYD** |
| 43/2007/0174/PF | **Siaradwr Cyhoeddus yn Erbyn y Cais: Mr C Taylor**<br>(Datganodd y Cynghorydd M German ddiddordeb yn y cais hwn a gadawodd y Siambr yn ystod y drafodaeth ar y mater.)<br>Ar ôl ystyried adroddiad ymweliad safle a gynhaliwyd ar 13 Ebrill 2007 a llythyron ychwanegol oddi wrth: Cyngor Tref Prestatyn, Cynghorydd Trefol J. Cahill; C ac D Taylor, Firbank Prestatyn<br>Newid ystafell fwyta to gwastad gyda tho ar ongl ac adeiladu estyniad i'r ystafell fwyta a'r balconi presennol y tu cefn i'r annedd<br>**Walden, Ffordd Bishopswood, Prestatyn**<br>**CANIATAWYD** |

| | |
|---|---|
| 43/2007/0210/PF | Cael gwared â’r man chwarae presennol ac adeiladu maes chwarae amlddefnydd a lle chwarae.<br>**Gerddi Gŵyl, Traeth y Ffrith, Ffordd Orllewinol Victoria, Prestatyn**<br>**CANIATAWYD** yn amodol ar<br>**Amod Ychwanegol:**<br>3. Ni chaniateir cychwyn y datblygiad nes derbyn cymeradwyaeth ysgrifenedig oddi wrth yr Awdurdod Cynllunio Lleol am fanylion y cynllun i dacluso/ôl driniaeth i’r maes chwarae presennol sydd i’w amnewid. Rhaid cwblhau’r cynllun cymeradwy ddim mwy na 6 mis ar ôl i’r maes chwarae amlddefnydd a’r lle chwarae gael eu defnyddio.<br>*Rheswm: Er budd mwynder gweledol* |
| 45/2005/0862/PF | Newid defnydd siop Dosbarth A1 i 1 Fflat hunangynhaliol.<br>**169 Ffordd Wellington, Rhyl**<br>**CANIATAWYD** yn amodol ar<br>**Amod Ychwanegol**<br>4. Cyn meddiannu’r fflat a ganiateir drwy hyn, rhaid ail-ddylunio blaen siop i adlewyrchu defnydd preswyl mewn cynllun sydd i’w gyflwyno i ac i’w gymeradwyo yn ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol.<br>*Rheswm: Er budd mwynder gweledol a chaniatáu preifatrwydd i breswylwyr yn y dyfodol.* |
| 45/2006/1200/PF | **Siaradwr Cyhoeddus Dros: Mr M. Ralph (Modus)**<br>(Ar ôl ystyried 3 llythyr ychwanegol oddi wrth Asiant yr Amgylchedd Cymru, Grŵp Busnes Rhyl, a “Better Bikes” 213 Ffordd Wellington, Rhyl )<br>Dymchwel ac ailddatblygu 7.625 hectarau o dir ar gyfer datblygu defnydd cymysg yn cynnwys 217 o fflatiau preswyl, gwesty, hamdden a chynulliad, busnes, mân-werthu, caffi, tai bwyta a thai tafarn, maes parcio, bro gyhoeddus newydd a defnyddiau ategol ynghyd â phriffyrdd cysylltiedig â gweithiau eraill, yn cynnwys 10 6kw tyrbinau gwynt a 3 gosodiadau solar PV posibl.<br>**Safle Ocean Beach, Ffordd Wellington, Rhyl**<br>Penderfynwyd **CANIATÁU’R** cynllunio ar yr amod:<br>1. Bod yr ymgeiswyr yn ymrwymo’n gyntaf i Adran 106 sy’n cwmpasu’r materion canlynol.<br>i) “Diddymiad” stôr Asda presennol ym Mae Cinmel a’i amnewid gyda chanolfan lleol addas, cyflogaeth a defnydd man agored.<br>ii) Rheoli a chynnal a chadw'r man agored cyhoeddus ar y safle, yn enwedig y promenâd newydd a’r parc trefol.<br>iii) Darparu CCTV ar y safle a’i gysylltu i system Canolfan Tref Rhyl.<br>iv) Strategaeth recriwtio ar gyfer busnesau ar y safle i dargedu’r di-waith tymor hir yn yr ardal.<br>v) Dulliau cynaliadwy i’r adeiladau ac isadeiledd y safle.<br>vi) Talu symiau cymudo i mewn i gronfa ‘adfywiad’.<br>2. Cyfeirio’r cais at y CYNGOR LLAWN gan fod y cais yn cynrychioli gwyriad arwyddocaol o’r cynllun datblygu.<br>3. Cyfeirio’r cais at Lywodraeth Cynulliad Cymru<br>- fel cais gwyriad, yn rhannol ar dir o eiddo’r Cyngor<br>- fel cais mân-werthu gydag arwynebedd llawr mân-werthu sy’n fwy na 10,000m$^2$<br>**Amodau ychwanegol/diwygiedig awgrymedig**<br>Ymestyn y graddoli i’r isadeiledd ac adeiladu<br>Rheolaeth dros y dymchwel |

Nodi mesurau cymeradwy lliniaru llifogydd
Lefelau sŵn y tyrbinau gwynt
Oriau masnachu - stôr mân-werthu
Mynediad i'r anabl - manylion ar draws elfennau amrywiol
Rheolaeth maes parcio stôr mân-werthu
Cynlluniau cynhyrchu ynni adnewyddadwy

47/2006/1252/PF

Ar ôl ystyried adroddiad o'r ymweliad â'r safle a gynhaliwyd ar 13 Ebrill 2007
Codi 1 lluosdwnel a gosod tanc septig newydd
**Pant y Wacco, Rhan AO Maes Rhif 6044, Ffordd Caerwys, Rhuallt**
**CANIATAWYD Yn amodol ar Amodau Newydd**
4. Ni chaniateir dechrau'r datblygiad nes y cyflwynir cynllun manwl a'i gymeradwyo'n ysgrifenedig gan Awdurdod Cynllunio Lleol, yn cynnwys y manylion canlynol:
(a) yr holl goed, gwrychoedd a llystyfiant arall presennol, manylion y rhai sydd i'w cadw, a'r mesurau i'w diogelu yn ystod y datblygiad;
(b) coed, gwrychoedd, llwyni neu lystyfiant newydd, yn cynnwys cadarnhad o'r rhywogaethau, nifer, a lleoliad a'r amseriad plannu arfaethedig;
(c) deunyddiau arfaethedig i'w defnyddio yn y dramwyfa/tramwyfeydd, llwybrau ac ardaloedd arwynebau caled eraill;
(d) gwrthglawdd arfaethedig, graddiant a thwmpathau a newidiadau yn y lefelau, cyfuchlinedd terfynol a'r berthynas rhwng y twmpathau arfaethedig i'r llystyfiant presennol a'r tirffurf amgylchynol;
(e) Lleoliad, dyluniad, deunyddiau a'r math o derfyn arfaethedig.
5. Rhaid gwneud y plannu, hadu, gweirio, ffensio, murio neu driniaeth arall sydd ym manylion cymeradwy'r tirweddu, yn ystod y tymhorau plannu a hadu cyntaf [yn dilyn meddiannu annedd/cwblhau'r datblygiad/ dechrau'r datblygiad/tymor plannu a hadu nesaf] ac unrhyw goed neu blanhigion sydd, o fewn cyfnod o bum mlynedd o'r datblygu, yn marw, yn cael eu symud neu'n dioddef anaf neu afiechyd difrifol, yn y tymor plannu nesaf gydag eraill o rywogaeth a maint tebyg.

**CANIATAWYD YN ERBYN ARGYMHELLIAD**

45/2007/0137/PO

**Siaradwr Cyhoeddus Dros y Cais: – Barry Jones**
(Datganodd y Cynghorydd H Jones ddiddordeb yn y cais hwn a gadawodd y Siambr yn y drafodaeth ar y mater.)
Ar ôl ystyried adroddiad yn dilyn ymweliad safle ar 13 Ebrill 2007.
Datblygu 0.068 hectarau o dir trwy ddymchwel y gweithdy a'r garejis presennol ac adeiladu annedd a mynedfa (cais amlinellol)
**Tir yn Fferm Merllyn, 23 Ffordd Dyserth, Rhyl**
**Pleidlais fwrw i GANIATÁU yn erbyn yr Argymhelliad**
Ar yr amodau canlynol
1. Rhaid gwneud cais cymeradwyaeth am y materion wrth gefn i'r Awdurdod Cynllunio Lleol cyn diwedd tair blynedd o ddyddiad y caniatâd.
2. Rhaid i'r datblygiad a ganiatawyd drwy hyn ddechrau naill ai cyn diwedd y pum mlynedd o ddyddiad y caniatâd hwn, neu cyn diwedd dwy flynedd o ddyddiad cymeradwyo'r olaf o'r materion wrth gefn i'w cymeradwyo, pa un bynnag yw'r diweddaraf.
3. Cymeradwyaeth y manylion dylunio ac ymddangosiad allanol yr adeilad(au), a thirweddu'r safle ("materion wrth gefn" o hyn ymlaen) oddi wrth yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn ysgrifenedig cyn dechrau unrhyw ddatblygiad.

4. Rhaid darparu a chadw cyfleusterau o fewn y safle ar gyfer parcio a throi cerbydau yn unol â chynlluniau wedi eu cymeradwyo a rhaid eu cwblhau cyn bod y datblygiad arfaethedig yn dod yn weithredol.
*Rheswm: Darparu lle i barcio i'r cerbydau yn glir o'r briffordd a sicrhau nad oes angen i'r cerbydau facio'n ddianghenraid i neu o'r briffordd er lles diogelwch traffig.*
5. Dim ond annedd un-llawr ganiateir yn unig.
*Rheswm: I ddiogelu mwynder y preswylwyr cyfagos a chymeriad yr ardal.*
6. Er gwaethaf gofynion Dosbarthiadau A,B,D,E Rhan 1 o Atodlen 2 Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir 1995 (neu unrhyw orchymyn sy'n diddymu neu'n ailddeddfu'r gorchymyn hwnnw gyda neu heb addasiad), ni chaniateir datblygiad gan y Dosbarthiadau a enwir heb gymeradwyaeth ysgrifenedig yr Awdurdod Cynllunio Lleol.
**Nodiadau i'r Ymgeisydd**
**Rhaid i arllwysiad dŵr** budr a dŵr wyneb gael eu draenio ar wahân o'r safle i amddiffyn diogelwch y System Garthffosiaeth Gyhoeddus. Ni chaniateir i ddŵr wyneb gysylltu (naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol) â'r system garthffosiaeth gyhoeddus er mwyn atal gorlwytho hydrolig y system garthffosiaeth gyhoeddus, ac er mwyn amddiffyn iechyd a diogelwch y preswylwyr presennol a sicrhau nad oes niwed i'r amgylchedd.
Ni chaniateir draeniad tir dŵr ffo, naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, arllwys i'r system garthffosiaeth gyhoeddus er mwyn atal gorlwytho system hydrolig y garthffosiaeth gyhoeddus a llygredd i'r amgylchedd.
Mae carthffos gyhoeddus yn croesi'r safle datblygu arfaethedig gyda brasamcan y safle wedi ei farcio ar y Cofnod Carthffos Gyhoeddus Statudol. O dan Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991, mae gan Dŵr Cymru/Welsh Water hawl mynediad i'r gwaith bob amser. Ni chaniateir i un rhan o'r adeilad fod o fewn 3 metr naill ochr i linell ganol y garthffos gyhoeddus i ddiogelu'r garthffos gyhoeddus ac osgoi difrod er hynny.

**GWRTHOD**

47/2006/1342/PF

**Siaradwr Cyhoeddus dros y Cais: – Adrian Parry Jones**
Ar ôl ystyried 2 lythyr ychwanegol oddi wrth; Pennaeth Trafnidiaeth ac Isadeiledd, ac Evelyn Courier (asiant yr ymgeisydd)
Dymchwel adeilad allanol diangen ac adeiladu dau annedd.
**Adeiladau allanol yn Llwyn Derw, Ffordd Treffynnon, Rhuallt**
**CANIATAWYD**

**GOHIRIO am y rheswm a roddwyd**

45/2006/0236/PF

Trawsnewid a gwneud addasiadau yn cynnwys estyniad i'r llawr gwaelod y gwesty presennol, i ffurfio 8 fflat hunangynhaliol.
**39/41 Stryd Aquarium, Rhyl**
**GOHIRIWYD** yr eitem ar gais y swyddogion.
*Rheswm:*
1. *Caniatáu cyfle i egluro cyfreithlondeb defnydd presennol*
2. *Caniatáu asesiad pellach o bryderon ynglŷn â 'gor-ddwysau'r' datblygiad*
3. *Caniatáu cyfle i ddatrys dull y Cyngor o ddelio â cheisiadau fflatiau hunangynhaliol*

**Tynnwyd y CAIS yn ôl**

| | |
|---|---|
| 45/2007/0136/PO | Datblygu 0.036 hectarau o dir trwy adeiladu bloc o 2 fflat hunangynhaliol (Cais amlinellol i gynnwys lleoliad a mynedfa) Tir y tu cefn i **Larkmount House, Ffordd Larkmount, Rhyl** **Tynnwyd yn ôl gan yr Ymgeisydd** |

Daeth y cyfarfod i ben am 1.15 p.m.

******